CYFARFOD	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
DYDDIAD	**9 Mehefin, 2015**
PWNC	**Lwfansau a Phresenoldeb Aelodau**
PWRPAS	**Diweddaru Aelodau ar y gofynion cyhoeddi ac adrodd ar fwriadau'r Cyngor o ran cwrdd â'r gofynion hynny**
AWDUR	**Arwel Ellis Jones** **Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynnu Corfforaethol** **Vera Jones** **Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd**

GOFYNION CYHOEDDI

1. Mae cyflogau aelodau etholedig yn fater o ddiddordeb cyhoeddus amlwg. Wrth gwrs, pennir y cyflogau hynny gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ffaith sydd yn pellhau'r penderfyniad ar yr union gyflogau oddi wrth y cynghorwyr eu hunain, mater y bu'r Cyngor hwn ac eraill yn pwyso amdano ers blynyddoedd.

2. Wrth gyhoeddi'r cyflogau hynny, mae'r Panel Annibynnol yn gosod rhai cyfrifoldebau ar y Cyngor o ran cyhoeddi'r cyflogau a delir. Mae dwy elfen i hyn:-

GOFYN	**AMSERLEN**
Cyhoeddi gwybodaeth am y cyflogau aelodau y bwriedir eu talu yn 2015/16	Erbyn 31 Gorffennaf
Cyhoeddi gwybodaeth am y cyflogau a'r treuliau a dalwyd i aelodau yn ystod 2014/15	Erbyn 30 Medi

Y BWRIADAU CYHOEDDI

3. Yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Mai 2015, bydd yr holl benodiadau i swyddi sydd yn cario cyflog ychwanegol wedi eu gwneud yn fuan wedi i gadeiryddion y flwyddyn gan eu cadarnhau. Byddwn felly yn cyhoeddi bwriadau'r Cyngor yn fuan, gan wneud hynny ar wefan y Cyngor a hysbysu'r Panel yn uniongyrchol.

4. O ran gwybodaeth am daliadau 2014/15 y bwriad eleni eto fydd eu cyhoeddi mewn rhifyn o Newyddion Gwynedd, os yw'r amserlen yn caniatáu. Fodd bynnag, mae'n deg nodi y mynegwyd peth pryderon yn y gorffennol bod y wybodaeth wedi ei gyhoeddi allan o'i gyd-destun.

5. Y bwriad eleni, fel llynedd, yw gwneud rhywbeth tebyg eto gyda Newyddion Gwynedd yn cynnwys adran ar waith aelodau, yn esbonio eu gwaith a'u cyfrifoldebau gwahanol ymysg pethau eraill gyda'r wybodaeth am y cyflogau ac os yw aelod wedi cynhyrchu Adroddiad Blynyddol neu beidio. Mewn adroddiad arall i'r Pwyllgor, rwy'n ymgynghori a

ddylid hefyd cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd/hyfforddiant yn yr un rhifyn.

6. Yn y cyd-destun hwn, mae pryderon wedi eu codi dros y misoedd diwethaf am lefel presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor. Mae hyn wedi ei drafod yn helaeth mewn cyfarfod gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol a tynnwyd eu sylw at achosion o bryder am bresenoldeb aelodau er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

SYLWADAU

7. Gwahoddir barn y pwyllgor ar y bwriadau hyn